# REES, HENRY (1798 - 1869), gweinidog enwocaf y Methodistiaid Calfinaidd yn ei gyfnod



**Enw:** Henry Rees
**Dyddiad geni:** 1798
**Dyddiad marw:** 1869
**Priod:** Mary Rees (née Roberts)
**Plentyn:** Anne Davies (née Rees)
**Rhiant:** Ann Rees
**Rhiant:** David Rees
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog enwocaf y Methodistiaid Calfinaidd yn ei gyfnod
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Griffith Wynne Griffith

Ganwyd 15 Chwefror 1798 yn Chwibren Isaf, Llansannan, sir Ddinbych, mab hynaf David ac Ann Rees; brawd iau ydoedd William Rees ('Gwilym Hiraethog'). Bu yn yr ysgol yn Llansannan am dair blynedd, a bu'n gwasnaethu yn Syrior, fferm a berthynai i Thomas Jones, Dinbych. Yn 1814 ymwelodd â'r Bala i geisio'r *Geiriadur Ysgrythyrol* gan Thomas Charles, ac yn nh Charles cyfarfu hefyd â John Elias - yr unig dro i'r tri arweinydd enwog yma i'r Methodistiaid Calfinaidd gyfarfod.

Dechreuodd Henry Rees bregethu tua diwedd 1818, a phrofodd ar unwaith y meddai ddoniau nodedig o ddisglair yn y pulpud - gwrando arno'n pregethu a fu'r achos i John Jones, Talsarn, ei roddi ei hun i'r weinidogaeth. Bu yn ysgol T. Lloyd, Abergele, 1819-21. Yn 1820 derbyniwyd ef yn bregethwr. Yn 1821 aeth i Amwythig yn brentis o lyfr-rwymydd, a bu'n gwasnaethu'r eglwys Gymraeg yno ar y Suliau a chael bwyd, dillad, a llety yn gydnabyddiaeth. Y pryd hwn bu mewn ysgol yn Dorrington er mwyn ymberffeithio mewn Saesneg. Datblygodd yn bregethwr nodedig o ddifrif, galluog, ac effeithiol, a deuai galwadau'n ddi-dor iddo o bob rhan o Gymru. Pregethodd yn y gymdeithasfa yn y Bala yn 1822 ac wedi hynny'n rheolaidd, gydag ychydig eithriadau, yng nghyfarfodydd y gymdeithasia hyd ddiwedd ei oes. Ymroddodd i astudio gweithiau'r Piwritaniaid, yn enwedig eiddo'r Dr. John Owen. Ordeiniwyd ef yn y Bala ym Mehefin 1827. Priododd Mary Roberts, Amwythig, 20 Tachwedd 1830, a bu iddynt bedwar o blant. Bu tri o'r plant farw yn eu babandod, eithr tyfodd y bedwaredd Ann, i fyny ac ymbriododd â Richard Davies (1818 - 1896). Symudodd i Lerpwl, Nadolig 1836, a gweinidogaethodd yno i'r Methodistiaid Calfinaidd a oedd ganddynt nifer o eglwysi. Yn ddiweddarach daeth i gysylltiad nes ag eglwys Chatham Street. Yn 1839 ymwelodd ag America. Yn 1843 cymerodd ran flaenllaw yn y gwrthwynebiad a oedd yng Nghymru i Fesur Addysg y flwyddyn honno. Yn 1857 bu yn yr Almaen yng nghyfarfod y Cynghrair Efengylaidd yn Berlin. Cydnabyddid ef ers llawer o amser bellach fel prif arweinydd y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru; bu'n llywydd cymdeithasfa'r gogledd yn 1855-6 a thrachefn yn 1867; ac yn 1864 penodwyd ef yn llywydd y gymanfa gyffredinol gyntaf. Gan lawer o bobl abl i farnu ystyrid ef y gweinidog mwyaf duwiolfrydig a'r pregethwr perffeithiaf a adnabuasent. Ysgrifennodd amryw erthyglau i'r *Traethodydd* a chylchgronau eraill. Cyhoeddwyd dwy gyfrol o'i bregethau. Bu farw yn Benarth, Dyffryn Conwy, 18 Chwefror 1869, a chladdwyd ef yn Llantysilio, Môn.

## Awdur

**Y Parchedig Griffith Wynne Griffith**, (1883 - 1967)

## Ffynonellau


Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig Henry Rees yn cynnwys casgliad helaeth o'i lythyrau* (Wrecsam 1891)

Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd 1868), 922-38

*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96), viii, 735-42

Hughes, *Methodistiaeth Cymru* (1851–6)

A. M. Davies, *Life and Letters of Henry Rees* (Bangor 1904)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Roger Edwards, Y diweddar Barchedig Henry Rees yn *Y Drysorfa*, Ebrill 1869, tt.121-131

W. Rees, 'Fy nhad', yn *Y Traethodydd*, Gorffennaf 1856

W. Rees, *Atgofion Mebyd a Ieuenctid*

W. Rees, *Rhyddweithiau Hiraethog sef, casgliad o weithiau llenyddol*, ii, 131-45

W. Rees, *Cathlau Henaint yn cynwys can o'r gwely a'r gongl, neu awdl foliant y bardd yn ei gystudd; yn nghyda'r goffaon hiraethlon am ei ddiweddar frawd, y Parch. Henry Rees, Liverpool, (yr olaf yn Saesoneg,) a chaniadau eraill*


## Darllen Pellach

Jane Hughes, Galar-gan am y diweddar Barch. Henry Rees, Liverpool

Erthygl Wicipedia: Henry Rees

## Delweddau

John Thomas, Revd Henry Rees (1798-1869)

John Thomas, Revd Henry Rees (1798-1869)

John Thomas, Rev. Henry Rees

John Thomas, Rev. Henry Rees

Y Parch. Henry Rees

Rev. Henry Rees

Parch. H. Rees

John Thomas, Revd Henry Rees (1798-1869)

Robert Humphreys, Rev. Henry Rees

J. C. Napper, Rev. Henry Rees

Rev.Henry Rees

John Thomas, Chwibren Isaf, Llansannan, old home of Henry & William Rees

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 14421080

Wikidata: Q18535889


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu